COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Y Llwyfan
Heol y Coleg / College Road
Caerfyrddin / Carmarthen
SA31 3EQ

01267 610400
gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk

Cadeirydd / Chairperson:
**Dr Aled Eirug**
Prif Weithredwr / Chief Executive:
**Dr Ioan Matthews**

1 Mehefin 2026

At sylw: Pennaeth y Gymraeg

**Gŵyl yr Haf Cymraeg Ail Iaith 2026**

Canolfan Taliesin, Prifysgol Abertawe, Parc Singleton, Abertawe SA2 8PZ
**Dydd Mawrth 7 Gorffennaf 2026 9.45yb-2.15yp**

Yn dilyn llwyddiant ein digwyddiadau yn Abertawe, Caerdydd a Wrecsam dros y ddwy flynedd diwethaf, mae Gŵyl yr Haf yn ôl ar gyfer 2026 – ac rydym yn dychwelyd i Abertawe! Dyma eich gwahodd felly i **Ŵyl yr Haf 2026**, dathliad o'r Gymraeg a gynhelir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar y cyd ag Adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe yng Nghanolfan y Celfyddydau Taliesin ar gampws Parc Singleton.

Nod y diwrnod fydd rhoi cyfle i ddysgwyr brofi elfennau o fyw, gweithio a chymdeithasu drwy gyfrwng yr iaith, ennyn diddordeb a phlannu hedyn astudio Lefel A Cymraeg, paratoi ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf, a chael blas ar astudio'r Gymraeg yn y brifysgol.

Rydym yn gwahodd **dysgwyr blwyddyn 12 presennol** sy'n astudio'r pwnc, unrhyw **ddysgwyr blwyddyn 11** sydd wedi dangos diddordeb yn dewis y Gymraeg fel pwnc ym mis Medi, ac yn estyn croeso i **ddysgwyr brwdfrydig o flwyddyn 10**.

Bydd y diwrnod yn cynnwys rhai sesiynau yn ymwneud â'r fanyleb (e.e. y stori fer; sgiliau iaith; sgwrs banel Byw yn Gymraeg) a gweithdai diddorol fydd yn rhoi blas ar y Gymraeg yn greadigol a chyfoes. Bydd yno ffair stondinau gan sefydliadau addysgiadol a busnesau sy'n defnyddio'r Gymraeg, er mwyn hybu cyfleoedd yn yr iaith a dangos sut mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn bywyd bob dydd. Bydd elfen gerddorol i'w diwrnod a chyfle i glywed gan fyfyrwyr, cyn-fyfyrwyr ac unigolion eraill sydd

CYMRAEG
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

wedi dysgu Cymraeg ac yn defnyddio'r iaith yn ddyddiol. Yr union raglen i'w chyhoeddi maes o law.

Mae gweithgareddau'r diwrnod **i gyd am ddim**, a gall y Coleg Cymraeg Cenedlaethol hefyd **gyfrannu at gostau teithio** ysgolion ac unigolion i gyrraedd Abertawe. **Bydd gofyn i bawb ddod â chinio eu hunain.**

Rydym yn gofyn i athrawon/darlithwyr fod yn bresennol gyda'r dysgwyr am y diwrnod; cysylltwch â mi os oes unrhyw broblem parthed hyn fel bod modd i ni ddod i drefniant addas.

Cliciwch isod i lenwi'r ffurflen gofrestru, a byddwn yn cysylltu maes o law er mwyn cael mwy o wybodaeth:

Ffurflen gofrestru: Gŵyl yr Haf Abertawe 2026

**Bydd angen cofrestru erbyn 24 Mehefin fan bellaf. Mae llefydd yn gyfyngedig a byddwn ni'n gweithredu ar sail y cyntaf i'r felin.**

Fel yr arfer, mae croeso i chi gysylltu â mi os oes unrhyw gwestiynau neu ymholiadau pellach.

Edrychaf ymlaen at eich cwmni yn Abertawe. Er gwybodaeth, byddwn yn cyhoeddi manylion am ddigwyddiad tebyg yn y gogledd yn fuan.

Yn gywir, a gyda diolch,



Dr Ffion Eluned Owen

Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg fel Pwnc

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

ff.owen@colegcymraeg.ac.uk

07951497246




CYMRAEG

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government